



Croesfan twcan newydd ar Ffordd Caer

Cyflymderau i'w lleihau ar hyd yr A494 wrth nesáu at y gylchfan

Croesfan newydd ar yr A494

Beicwyr i ymuno â cherbyttffordd ffordd fynediad isel i gysylltu â chroesfannau twcan

Croesfan uwch newydd wrth fynedfa'r orsaf betrol

Troedfyrdd wedi'u lledu i 3m ar lwybrau anffurfiol i gerddwyr a beicwyr

Croesfan twcan newydd ar Ffordd yr Wyddgrug

Safle rheiliau gwarchod cerddwyr i'w hystyried yn y gwaith o ddylunio manwl.
 Lluniau 3D yma



Cylchfan Wylfa:

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r cynigion teithio llesol ar gylchfan Wylfa, gan ddechrau o'r dwyrain.

- I'r dwyrain o'r gylchfan cynigir croesfan twcan newydd ar Ffordd yr Wyddgrug gan ganiatáu i feicwyr groesi drosodd i gael mynediad at lwybr a rennir newydd 3 metr o led i'r dwyrain o'r gylchfan. Ni fyddai cerddwyr yn defnyddio'r groesfan hon gan nad oes troedffordd ar ochr ddeheuol Ffordd yr Wyddgrug.
- Wrth gael mynediad i'r orsaf petrol, cynigir croesfan newydd sydd wedi cael ei godi, gan ddarparu croesfan fwy diogel i gerddwyr a beicwyr. Bydd hyn yn gostwng cyflymder y cerbydau sy'n mynd i mewn ac yn ymadael yr orsaf petrol oherwydd byddai'n ofynnol iddynt ddefnyddio'r ramp hyd at lefel y droedffordd.
- Mae llwybr a rennir newydd 3 metr o led wedyn yn cysylltu mynediad yr orsaf petrol i groesfan twcan newydd o Ffordd Osgoi'r Wyddgrug A494 i'r gogledd o'r gylchfan. Mae hyn yn darparu man croesi diogel i gerddwyr a beicwyr gyda goleuadau traffig wedi'u cynnig i atal traffig ar alwad.
- Yna mae'r llwybr a rennir newydd yn cysylltu croesfan twcan yr A494 gyda'r ffordd fynediad llai prysur sydd wedi ei leoli i'r gogledd o Ffordd Caer gan ddarparu llwybr tawelach i gerddwyr a beicwyr. Bydd beicwyr yn teithio o fewn y ffordd gerbydau fyddai'n cael ei ail- wyneb er mwyn darparu llwybr llyfn a deniadol.
- I'r gorllewin o'r gylchfan cynigir croesfan newydd ar Heol Caer, i'r gorllewin o'r fynedfa i Fferm Pen y Bont. Mae hyn yn cynnig lle diogel i gerddwyr a beicwyr groesi i gael mynediad i'r ddwy ochr o Ffordd Caer.
- Bydd yr holl unedau botwm gwthio o fewn y cynllun yn cael eu gosod â chônau cyffyrddol sy'n cylchdroi a byddent yn cael eu lleoli gan gyfeirio at y canllawiau dylunio diweddaraf sy'n berthnasol i ddarparu cyfleusterau effeithiol ar gyfer defnyddwyr sydd â nam ar eu golwg.